

**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
**Minister for Economy, Science and Transport**



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Eich cyf/Your ref  
Ein cyf/Our ref

Mike Hedges AC  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig

[seneddCCERA@assembly.wales](mailto:seneddCCERA@assembly.wales)

16 Ionawr 2019

Annwyl Mike

Diolch am eich llythyr dyddiedig 30 Tachwedd 2018 yn amgáu copi o adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020.

Amgaeaf fy ymateb ffurfiol i bob argymhelliad.

Yn gywir

**Ken Skates AC/AM**

Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth  
Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth

## **Ymateb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-2020**

---

Gwneir 13 o argymhellion yn yr adroddiad hwn a gellir eu rhannu'n chwe chategori: Datgarboneiddio, ansawdd aer, buddsoddi mewn priffyrdd, Ffordd Liniaru'r M4, Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru a Thrafnidiaeth Cymru (TrC). Gweler ymatebion manwl i argymhellion yr adroddiad isod.

### **Argymhelliad 1**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet esbonio sut mae gofyn i fusnesau sy'n chwilio am fuddsoddiad fel rhan o'r contract economaidd ddangos eu hymrwymiad i leihau eu hól troed carbon.

**Ymateb:** Derbyn

Rwy'n amgáu dogfen yn Atodiad 1 sy'n diffinio pob un o feini prawf y Contract Economaidd ac yn rhoi enghraifft o'r math o enghreifftiau rydyn ni'n gofyn i fusnesau amdanynt fel tystiolaeth o'u hymrwymiad.

### **Argymhelliad 2**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet roi mwy o fanylion y dyfarniadau a wnaed fel rhan o'r Galwad am Weithredu ar ddatgarboneiddio. Dylai esbonio ai prif bwrpas y dyfarniadau yw ymateb i'r Galwad am Weithredu ar ddatgarboneiddio neu a gawsant eu gwneud o dan Alwadau am Weithredu eraill ond a oedd yn berthnasol hefyd i ddatgarboneiddio.

**Ymateb:** Derbyn

Prif bwrpas unrhyw ddyfarniadau o dan y Galwad am Weithredu ar ddatgarboneiddio yw datgarboneiddio, wrth reswm. Rydyn ni wedi rhoi arian i ddau brosiect fel rhan o'r Galwad am Weithredu ar ddatgarboneiddio hyd yma.

### **Argymhelliad 3**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar yr arian sydd wedi'i ddefnyddio o dan yr Alwad am Weithredu ar ddatgarboneiddio. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am y camau sydd wedi'u cymryd i annog defnyddio'r arian.

**Ymateb:** Derbyn

Byddaf yn rhoi adroddiadau i'r Pwyllgor yn crynhoi nifer y prosiectau sydd wedi'u noddi a faint o arian fydd wedi'i roi o dan pob Galwad am Weithredu. Byddaf yn cyflwyno'r adroddiadau hyn bob chwe mis, ddiwedd a chanol pob blwyddyn ariannol.

## Argymhelliad 4

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar y gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu rhwydwaith o safleoedd gwefru cerbydau trydan ac am ei chynlluniau ar gyfer datblygiadau pellach yn y maes hwn.

**Ymateb:** Derbyn

Cyfeiriodd Datganiad Ysgrifenedig Gweinidog yr Economi a Thrafnidiaeth ar 11 Hydref 2018 at yr amcan bod Trafnidiaeth Cymru'n dechrau'r broses gaffael yng Ngwanwyn 2019. Caiff Aelodau'r Cynulliad fwy o wybodaeth maes o law.

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd yr argymhelliad a wnaeth yn 2018 y dylai Strategaeth Trafnidiaeth newydd Cymru gynnwys targedau a mecanweithiau i fonitro ansawdd aer yng Nghymru, gan gyfeirio'n benodol at leoliadau fel ysgolion ac ysbytai. Dylai'r lleoliadau hynny gynnwys parciau cyhoeddus hefyd yn ein barn ni.

**Ymateb:** Gwrthod

Dogfen bolisi yw Strategaeth Trafnidiaeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Cynllun Aer Glân i Gymru yn ystod 2019 a fydd yn nodi llygryddion allweddol, eu heffeithiau ar iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd naturiol yng Nghymru a pha gamau y mae angen eu cymryd er mwyn gwella ansawdd yr aer. Bydd y Strategaeth Drafnidiaeth yn nodi'r mesurau sy'n cael eu cymryd fydd yn helpu i wella ansawdd aer yng Nghymru. Caiff manylion mesurau'r polisi trafndiaeth i helpu i leihau llygredd aer eu nodi yn y Cynllun Aer Glân i Gymru. Mae swyddogion Trafnidiaeth ac Ansawdd Aer yn cydweithio'n glos â'i gilydd i ddatblygu'r ddwy ddogfen.

## Argymhelliad 6

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o fewn 6 mis ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn cysylltiad â Chrynodeiadau Nitrogen Deuocsid ar Ymyl Ffyrdd. Dylai gynnwys asesiad o effaith y terfynau 50mya mewn mannau penodol.

**Ymateb:** Derbyn mewn egwyddor

Er bod data'n cael eu casglu bob mis, ni fyddwn yn gwybod effaith lawn y terfynau 50ya tan y byddwn wedi cael ac wedi dadansoddi gwerth 12 mis o ddata. Ni fydd y data hynny ar gael tan fis Medi 2019 fan cyntaf. Fodd bynnag, bydd yr wybodaeth ddiweddaraf am hynt y 'Cynllun Gweithredu' a'r 'Mesurau Rhagofalus a Gadwyd' (*Precautionary Retained Measures*) fel y'u disgrifir yn y cynllun atodol i gynllun y DU ar gyfer lleihau crynodeiadau nitrogen deuocsid ar ymyl ffyrdd, ar gael pan fydd ei hangen.

## **Argymhelliad 7**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o fewn y 6 mis nesaf ar ei gynlluniau ar gyfer terfynau 20mya.

**Ymateb:** Derbyn

Rydym yn parhau i weithio gyda phartneriaid i ystyried yr opsiynau a gawn yn sgil datganoli pwerau ynghylch terfynau cyflymder cenedlaethol yng Nghymru. Byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyngor Caerdydd i ddeall effaith yr ardaloedd 20mya sydd wedi'u sefydlu yn rhannau helaeth o Gaerdydd, ac i ystyried a oes gan y terfynau 20mya a'r buddsoddi mewn teithio llesol gan gynnwys ariannu manau llogi beiciau ar y stryd a llwybrau seiclo strategol rhyngddynt y potensial i wneud y ffyrdd yn fwy diogel, ansawdd yr aer yn well a chynyddu'r nifer sy'n teithio trwy ddulliau llesol. Gan ddefnyddio'r gwersi y bydd datblygiadau yng Nghaerdydd yn eu dysgu inni, byddwn yn adolygu'n harweiniad ar osod terfynau cyflymder lleol i weld a yw'n dal yn addas ar ôl datganoli pwerau i osod terfynau cyflymder.

Fel rhan o'r gwaith hwnnw, caiff y costau sy'n gysylltiedig â newid terfynau cyflymder cenedlaethol eu hasesu.

Byddwn yn rhoi adroddiad i'r pwyllgor am y mater hwn o fewn y chwe mis nesaf.

## **Argymhelliad 8**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf ar y gwaith sy'n cael ei wneud ar fenter "Coridorau Gwyrdd ar Rwydwaith Cefnffyrdd Cymru".

**Ymateb:** Derbyn

Mae angen rhagor o waith ymchwil a chynllunio manwl ar gynigion gwreiddiol y fenter. Fe all hynny olygu bod angen mwy o adnoddau sy'n golygu cyflwyniadau i Weinidogion a'u cymeradwyo.

## **Argymhelliad 9**

Mae'r Pwyllgor yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor hwn o fewn y chwe mis nesaf ar statws unrhyw adolygiadau o WeITAG 2017.

**Ymateb:** Derbyn

Cafodd yr Arweiniad ar Arfarnu Trafnidiaeth Cymru (WeITAG) ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Cymerodd le WeITAG 2008 a dylid ei ddefnyddio yng nghyswllt pob cynllun trafndiaeth sy'n gofyn am gymorth Llywodraeth Cymru. Y disgwyl oedd y byddai unrhyw gynllun a ddatblygwyd gan ddefnyddio WeITAG 2008 yn cael ei symud i WeITAG 2017 cyn gynted ag y medrid. Yn dilyn ei flwyddyn gyntaf, rydym yn adolygu'r ffordd y mae'r arweiniad wedi bod yn cael ei ddefnyddio. Bydd hynny'n ein galluogi i weld pa feysydd sydd ag angen rhagor o arweiniad neu help arnynt.

Efallai y bydd rhai o argymhellion yr adolygiad yn gofyn am adnoddau ychwanegol gan olygu cyflwyniadau i Weinidogion a'u cymeradwyo.

Byddwn yn hysbysu'r Pwyllgor o fewn y chwe mis nesaf am y gwaith sydd wedi'i wneud.

## **Argymhelliad 10**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru esbonio statws a threfniadau llywodraethu'r Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol. Dylai hynny gynnwys esbonio sut y gallai ddod o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er nad yw wedi'i restru fel corff cyhoeddus at ddiben y ddeddf honno. Dylai esbonio hefyd sut mae'r Comisiwn yn destun gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

**Ymateb:** Derbyn

Caiff trefniadau gweithio manwl y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol eu cyhoeddi ar ei wefan unwaith y bydd Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn wedi cytuno arnyn nhw. Byddant yn egluro statws a threfniadau llywodraethu'r Comisiwn, gan gynnwys ei statws mewn cysylltiad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

## **Argymhelliad 11**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylid newid Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i gynnwys y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol fel un o'r cyrff cyhoeddus yn Adran 6 y Ddeddf.

**Ymateb:** Gwrthod

Sefydlwyd y Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol (NICW) fel panel cynghori annibynnol anstatudol i Weinidogion Cymru. Gan nad yw'r Comisiwn yn "awdurdod cyhoeddus", gan nad oes iddo statws cyfreithiol annibynnol a chan nad yw'n arfer "swyddogaethau" statudol, y ffordd fwyaf priodol o sicrhau ei berthynas â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw ei gwneud yn ofynnol iddo ystyried gofynion y Ddeddf trwy'r trefniadau gweithio y cytunir arnynt gyda Llywodraeth Cymru.

Gan mai rôl y Comisiwn yw cynghori Llywodraeth Cymru (ynghylch arfer ei swyddogaethau), trwy benderfynu derbyn (neu wrthod) ei gyngor, bydd Llywodraeth Cymru o raid yn cydymffurfio â'i dyletswyddau statudol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

## **Argymhelliad 12**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru egluro statws a threfniadau llywodraethu Trafnidiaeth Cymru (TrC). Dylai hynny gynnwys esbonio sut y gallai TrC ddod o dan ddarpariaethau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol er nad yw wedi'i restru fel corff cyhoeddus at ddiben y ddeddf honno. Dylai esbonio hefyd sut mae TrC yn destun gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

**Ymateb:** Derbyn

Cyhoeddir statws a threfniadau llywodraethu TrC ar wefannau Llywodraeth Cymru a'r Cwmni. Fodd bynnag, bydd Llywodraeth Cymru'n adolygu'r wybodaeth ac yn cyhoeddi arweiniad manwl pellach. Bydd hyn yn egluro ei statws o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

### **Argymhelliad 13**

Mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 gael ei newid i gynnwys Trafnidiaeth Cymru fel un o'r cyrff cyhoeddus yn Adran 6 y Ddeddf.

**Ymateb:** Gwrthod

Mae cyflawni amcanion llesiant Cymru'n ganolog i strwythurau llywodraethu, mentrau a phenderfyniadau polisi Llywodraeth Cymru. Cafodd Trafnidiaeth Cymru ei sefydlu o dan Ddeddf y Cwmnïau (2006) ac mae'n gwbl atebol i Weinidogion Cymru fel is-gwmni mewn perchnogaeth lwyr sydd wedi'i gyfyngu gan warant. Mae Llywodraeth Cymru yn cadw cyfrifoldeb yn y pen draw dros faterion trafndiaeth, ond gall ofyn i TrC gynnal gweithgareddau ar ei rhan. Trwy gael TrC i gynnal gweithgareddau penodol ar ei rhan, mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol i'r Cwmni wneud y mwyaf o'i gyfraniadau at gyflawni'r amcanion llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Trwy'r Cytundeb Rheoli sy'n llywio'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru a TrC, mae gofyn i'r Cwmni gyflawni'r amcanion llesiant. Bydd TrC yn eu cyhoeddi yng Nghynllun Busnes y Cwmni.

**Ken Skates AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Trafnidiaeth**